

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 13 Mai 2015

Canolfan QED Trefforest

Yn bresennol

Cadeirydd

Chris Gittins (CG) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Charlotte Anscombe (CA)	Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru
Erika Helps (EH)	Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru
Kathryn Markey (KM)	Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru
Michael Curties (MC)	Yr Is-adran Gymunedau (Datblygu Rhaglenni)
Karl Thomas (KT)	Yr Is-adran Polisi Tai (Diwygio Lles [Tai] a Swyddogion Rhenti Cymru)
Beverly Morgan (BM)	Trechu Tlodi (Polisi a Dadansoddi)

Aelodau

Dave Brown (DB)	Canolfan Cydweithredol Cymru
Elizabeth Emmons (EE)	Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
Helen Matthews (HM)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Rhaglen Credyd Cynhwysol)
Helene Hayes (HH)	Cyngor ar Bopeth Cymru
Katija Dew (KD)	Canolfan Cydweithredol Cymru
Leanne Herberg (LH)	Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Lee Phillips (LP)	Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Paul Langley (PL)	Cartrefi Cymunedol Cymru
Rhys Evans (RE)	Enwebwyd gan Bethan Jenkins AC
Tony Kirk (TK)	Y Gwasanaeth Prawf (yn cynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd yng Nghymru)

Ysgrifenyddiaeth

Jan Morgan (JM) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol

Ian Albert (IA)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Jon Rae (JR)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Kevin Griffiths (KG)	Addysg a Sgiliau (Llythrennedd a Rhifedd)

1. Croeso a chyflwyniadau

- 1.1 Croesawodd CG yr aelodau newydd i gyfarfod rhagarweiniol y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol a sefydlwyd yn dilyn ymrwymiad Gweinidogol i ad-drefnu'r Grŵp er mwyn canolbwyntio ar gynghori ynghylch diweddaru'r

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 13 Mai 2015

Canolfan QED Trefforest

Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer 2016. Daeth ymddiheuriadau i law gan Ian Albert, Jon Rae a Kevin Griffiths.

2. Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2009

- 2.1 Esboniodd CG fod digwyddiadau megis newidiadau yn economi'r DU, Diwygio Lles, gostyngiadau mewn Cymorth Cyfreithiol a thwf yn y Farchnad Benthyciadau Diwrnod Cyflog wedi newid y dirwedd ariannol, ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Strategaeth Cynhwysiant Ariannol gyntaf yn 2009. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy gyflwyno newidiadau i gymorth rheng flaen ar gyfer Gwasanaethau Cynghori, cynnal yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori a sefydlu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cynghori Cenedlaethol a Safonau Ansawdd ar gyfer darparwyr Gwasanaethau Cynghori. Mae cymorth ariannol wedi'i roi hefyd drwy gyfrwng Undebau Credyd, y Gronfa Cymorth Dewisol a phrosiect Cyngor ar Bopeth Cymru, sef Cyngor Da, Bywyd Da.
- 2.2 Bydd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn cael ei diweddarau yn 2015/16 er mwyn ystyried y newidiadau i'r economi ac ystyried gallu darparwyr gwasanaeth i gynorthwyo pobl wrth i'w hadnoddau hwy eu hunain fynd yn llai. Bwriedir i'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol gael rôl bwysig yn y gwaith o ddatblygu'r Strategaeth, gan sicrhau ei bod yn gadarn ac yn addas i'w diben.

3. Y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol – Cylch Gorchwyl

- 3.1 Roedd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod ac roedd yn egluro cyfansoddiad y Grŵp, ei gyfrifoldebau ac amllder ei gyfarfodydd.
- 3.2 Dywedodd CG ei fod yn rhagweld y bydd tri chyfarfod o'r Grŵp yn cael eu cynnal cyn i fersiwn derfynol gael ei llunio o'r ddogfen ddrafft er mwyn ymgynghori yn ei chylch. Yn dilyn cyfarfod heddiw, bydd ail gyfarfod yn cael ei gynnal ar 16 Gorffennaf a bydd trydydd cyfarfod yn cael ei gynnal ym mis Medi/Hydref cyn bod dogfen ymgynghori'n cael ei chyhoeddi tua diwedd 2015. Mae'n debyg y byddai'r Grŵp yn cwrdd unwaith yn rhagor i ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad, cyn bod y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi.
- 3.3 Cytunodd yr aelodau ar y Cylch Gorchwyl.

4. Datblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016

- 4.1 Aeth CG yn ei flaen i gyflwyno KM sydd wedi ymuno â'r Uned Cynhwysiant Ariannol er mwyn datblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016. Nododd KM ei bod wedi cwrdd â sawl aelod cyn y cyfarfod cyntaf, a bod hynny wedi bod yn ddefnyddiol o safbwynt cynnig syniadau cychwynnol ynglŷn â

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 13 Mai 2015

Canolfan QED Trefforest

chynnwys posibl strategaeth ddiwygiedig. Roedd cynnwys ei chyflwyniad ar gyfer y cyfarfod yn seiliedig ar hynny.

- 4.2 Rhoddodd KM drosolwg byr ar ffurf cyflwyniad PowerPoint o syniadau cychwynnol ynglŷn â'r ffordd ymlaen a gwahoddodd aelodau'r Grŵp i ystyried beth a allai fod yn weledigaeth ar gyfer Strategaeth newydd, drwy adolygu datganiad o weledigaeth y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol wreiddiol ac ystyried a fyddai datganiad tebyg yn addas ac yn sylfaen dda ar gyfer dogfen y dyfodol. Yna cafwyd trafodaeth ford gron a mynegwyd y safbwyntiau canlynol.
- Mae angen cydbwysedd rhwng dyheadau ac ymarferoldeb mewn gweledigaeth
 - Mae angen cydbwysedd rhwng agweddau cyffredinol ac agweddau penodol mewn gweledigaeth / strategaeth, gan ddefnyddio dulliau cyfeirio i helpu pobl mewn cymunedau sy'n wynebu anawsterau
 - Mae angen i weledigaeth fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll newidiadau yn y dyfodol i'r hinsawdd ariannol a'r ysgogiadau polisi sydd ar gael
 - Mae angen bod yn gydnerth o ran agweddau ac ymddygiad
 - Dylid ystyried yr agenda atal tloedi er mwyn hybu ffyniant economaidd yn y dyfodol, yn enwedig i grwpiau sydd ar y cyrion
 - Mae'n bwysig sicrhau ansawdd cynnyrch a gwasanaethau, ac mae'r angen iddynt fod yn ymarferol ac yn hygyrch yn bwysig hefyd
- 4.3 Nododd KM fod pum thema greiddiol y strategaeth wreiddiol yn parhau'n berthnasol ond cynigiodd y gallent gael eu crynhoi i dair thema greiddiol ar gyfer Strategaeth 2016:
- Mynediad i gredyd fforddiadwy / gwasanaethau ariannol;
 - Mynediad i wybodaeth ariannol / cyngor ynghylch dyled; a
 - Meithrin gallu ariannol rhwng y cenedlaethau.
- 4.4 Gwahoddodd KM farn am y strwythur arfaethedig ac iddo dair thema. Cafwyd consensws cyffredinol y byddai symleiddio'r strwythur yn ddymunol er mwyn annog dull symlach o weithredu. Awgrymwyd y byddai angen i eiriad y themâu fod yn ddealladwy a chynnwys elfen ymarferol. Cytunodd KM fod y geiriad yn bwysig a nododd mai drafft cychwynnol oedd y disgrifiadau o'r themâu.
- 4.5 Dywedodd KM wrth y Grŵp fod y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn datblygu Strategaeth Gallu Ariannol Cymru, ar sail y themâu sydd yn Strategaeth Gallu Ariannol y DU. Nododd y byddai LP o'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol a Neville Condillac o PA Consulting yn cynnal sesiwn gweithdy ar allu ariannol ar ôl cyfarfod y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol er mwyn llywio Strategaeth y Gwasanaeth Cyngori Ariannol. Bwriedir i Strategaeth Gallu Ariannol Cymru, a fydd yn destun ymgynghoriad llawn, gael ei hymgorffori yn Strategaeth Cynhwysiant Ariannol newydd Cymru ar gyfer 2016 lle bydd yn rhan allweddol o'r thema Meithrin Gallu Ariannol rhwng y Cenedlaethau.

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 13 Mai 2015

Canolfan QED Trefforest

5. Gweithdy ynghylch y Themâu Creiddiol – Crynodeb o'r prif bwyntiau gweithredu

- 5.1 Cyflwynodd KM Weithdy ynghylch y Themâu Creiddiol er mwyn rhoi cyfle i aelodau'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol ystyried y tair thema greiddiol arfaethedig yn fanwl. Cafodd yr aelodau eu gwahodd i awgrymu pa fanylion a fyddai'n briodol dan y themâu / amcanion lefel uchel, pa ganlyniadau a ddylai fod yn ofynnol a'r ysgogiadau y gallai Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner eu defnyddio i ddylanwadu arnynt.
- 5.2 Bydd yr hyn a ddeilliodd o'r gweithdy'n cael ei ystyried gan yr Uned Cynhwysiant Ariannol er mwyn datblygu strwythur arfaethedig a chynnwys cychwynnol Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol yn y cyfarfod nesaf.
- 5.3 Cafodd aelodau'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol eu gwahodd i rannu'r pwyntiau allweddol a oedd wedi dod i'r amlwg o'u trafodaethau. Roedd y pwyntiau hynny'n cynnwys y canlynol:
- Cydnabod y gwaith da a wnaed eisoes
 - Mapio / deall y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes
 - Cysylltu'r Strategaeth ddiwygiedig â digwyddiadau allweddol bywyd
 - Defnyddio iaith glir, syml; osgoi jargon ac ystyried llunio fersiwn i blant
 - Mae canlyniadau'n bwysig ond mae angen eu cydbwysio ag allbynnau lle bo hynny'n briodol. Mesur beth sy'n wirioneddol bwysig, hy nid faint o gyfrifon banc sydd wedi'u hagor ond faint sy'n cael eu defnyddio
 - Ystyried rhychwant y Strategaeth – ei sianelu neu'i chysylltu ar draws y Rhaglen Lywodraethu er mwyn gweld beth sy'n gweithio ble
 - Adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael eisoes er mwyn gweld beth sy'n gweithio

6. Adborth a chymau nesaf

- 6.1 Cadarnhaodd KM y bydd y wybodaeth o weithdai'r Grŵp yn cael ei defnyddio i lywio'r themâu sy'n dod i'r amlwg a strwythur Strategaeth 2016, ac y bydd yn cael ei defnyddio'n sail ar gyfer trafodaeth yn yr ail gyfarfod ym mis Gorffennaf.
- 6.2 Bydd y gwaith o ddrafftio Strategaeth 2016 yn dechrau yn ystod yr haf, a bydd rhagor o fanylion ar gael ar gyfer cyfarfod y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol ym mis Medi/Hydref. Gwahoddodd KM unrhyw un a oedd â diddordeb mewn rhoi sylwadau ar adrannau o'r Strategaeth ddrafft wrth iddi gael ei datblygu i roi gwybod am hynny i'r ysgrifenyddiaeth.

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 13 Mai 2015

Canolfan QED Trefforest

7. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

- 7.1 Nododd CG mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Grŵp i KD. Ar ran y Grŵp, diolchodd CG iddi am ei help a'i chefnogaeth a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol.
- 7.2 Y dyddiad am y tro ar gyfer y cyfarfod nesaf, a gynhelir ym Merthyr Tudful, yw 16 Gorffennaf 2015.

Jan Morgan

14 Mai 2015